



WALES **AUDIT** OFFICE  
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

# Asesiad Strwythuredig - Adroddiad dilynol 2011

## **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

**Blwyddyn archwilio:** 2010-11

**Cyhoeddwyd:** Ionawr 2012

**Cyfeirnod y ddogfen:** 633A2011

# Statws yr adroddiad

---

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Andrew Doughton, John Dwight ac Anthony Veale.

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [infoofficer@wao.gov.uk](mailto:infoofficer@wao.gov.uk).

# Cynnwys

---

Gwneir cynnydd o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn ein hasesiad strwythuredig yn 2010, ond erys rhai heriau penodol.

<b>Adroddiad cryno</b>	4
<b>Adroddiad manwl</b>	
Gwneir cynnydd o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn ein hasesiad strwythuredig yn 2010, ond erys rhai heriau penodol	6
Mae dull y Bwrdd Iechyd o gyflawni ei weledigaeth i foderneiddio gwasanaethau yn datblygu ac yn arwain at welliant. Fodd bynnag, mae dal angen iddo o hyd bennu dangosyddion cliriach y gellir eu defnyddio i fesur llwyddiant a mynd i'r afael â bylchau o ran adnoddau a gallu'r sefydliad, yn enwedig yn lleol	6
Gwelwyd gwelliannau o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol, ond mae angen gwneud mwy i sicrhau bod staff y Bwrdd Iechyd yn deall ac yn cefnogi cynlluniau strategol y sefydliad	9
Mae'n ddealladwy bod prosesau rheoli ariannol wedi canolbwyntio ar y sefyllfa flynyddol ac mae'r Bwrdd Iechyd yn dechrau gweld buddiannau'r prosesau hynny, ond mae'n rhagweld diffyg o £3 miliwn ar gyfer 2011-12 ar hyn o bryd. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd o hyd wneud mwy i gadarnhau ei sefyllfa ariannol tymor hwy	11
Mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn gadarn ar y cyfan ac mae mwy o waith yn mynd rhagddo i sicrhau eu bod yn llywio ac yn cefnogi gwelliant	13
<b>Atodiadau</b>	
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys - ei gefndir a'i heriau	15

# Adroddiad cryno

---

1. Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd) yw'r sefydliad sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau iechyd a lles i bobl sy'n byw ym Mhowys, sy'n gweithio yno neu sy'n ymweld â'r ardal. Mae **Atodiad 1** yn rhoi cefndir y Bwrdd Iechyd a'r heriau sy'n ei wynebu.
2. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol gyfrifoldeb statudol i fodloni ei hun bod gan gyrrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarvoudus. I'w gynorthwyo yn hyn o beth, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi datblygu 'asesiad strwythuredig', a gynhaliwyd ym mhob un o gyrrff y GIG yng Nghymru am y tro cyntaf fel rhan o waith archwilio 2010.
3. Fel rhan o'r 'asesiad strwythuredig', adolygir trefniadau corfforaethol ym maes llywodraethu, rheoli adnoddau a rheoli ariannol.
4. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol ei gasgliadau o'r asesiad a gynhaliwyd o'r Bwrdd Iechyd y llynedd yn Adroddiad Archwilio Blynyddol 2010.
5. Mae'r adroddiad hwn yn mynd ar drywydd y meysydd allweddol i'w gwella a nodwyd yn Adroddiad Archwilio Blynyddol 2010. Yn benodol, mae'n adolygu cynnydd y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r canlynol:
  - dulliau o wella a moderneiddio gwasanaethau;
  - trefniadau i ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol; A
  - sefyllfa ariannol bresennol y Bwrdd Iechyd a'i drefniadau rheoli ariannol.
6. Yn ogystal, rydym hefyd wedi ystyried trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd.
7. Nod y gwaith yw ateb y cwestiwn: 'A yw Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi gwneud cynnydd yn y meysydd a nodwyd yn asesiad strwythuredig 2010?'
8. Un o brif nodau'r gwaith fu helpu'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu ac ymgorffori ei drefniadau i sicrhau gwelliant a'i drefniadau llywodraethu. I'r perwyl hwn, rydym eisoes wedi trafod y prif ganfyddiadau ag uwch swyddogion gweithredol i'w helpu i nodi materion y mae angen rhoi sylw iddynt yn gynnar.
9. Mae casgliad cyffredinol ein gwaith dilynol ar yr asesiad strwythuredig fel a ganlyn: **'Gwneir cynnydd o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn ein hasesiad strwythuredig yn 2010, ond erys rhai heriau penodol.'** Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol:
  - Mae dull y Bwrdd Iechyd o **gyflawni ei weledigaeth** i foderneiddio gwasanaethau yn datblygu ac yn arwain at welliant. Fodd bynnag, mae angen iddo o hyd bennu dangosyddion cliriach y gellir eu defnyddio i fesur llwyddiant a mynd i'r afael â bylchau o ran adnoddau a gallu'r sefydliad, yn enwedig yn lleol.
  - Gwelwyd gwelliannau o ran **ymgysylltu** â rhanddeiliaid allanol, ond mae angen gwneud mwy i sicrhau bod staff y Bwrdd Iechyd yn deall ac yn cefnogi cynlluniau strategol y sefydliad.
  - Mae'n naturiol bod prosesau **rheoli ariannol** wedi canolbwyntio ar y sefyllfa flynyddol ac mae'r Bwrdd Iechyd yn dechrau gweld buddiannau'r prosesau hynny, ond mae'n rhagweld diffyg o £3 miliwn ar gyfer 2011-12 ar hyn o bryd. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd o hyd wneud mwy i gadarnhau ei sefyllfa ariannol tymor hwy.

- 
- Mae **trefniadau llywodraethu**'r Bwrdd Iechyd yn gadarn ar y cyfan ac mae mwy o waith yn mynd rhagddo i sicrhau eu bod yn llywio ac yn cefnogi gwelliant.
10. Mae adrannau dilynol yr adroddiad hwn yn ystyried ein canfyddiadau'n fanylach. Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r canfyddiadau'n anelu at gydnabod llwybr datblygu'r Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi nodi'r meysydd hynny lle credwn fod angen i'r Bwrdd Iechyd wneud cynnydd cyflymach.
11. Er mwyn helpu'r Bwrdd Iechyd i gryfhau ei drefniadau corfforaethol, rydym wedi rhoi crynodeb isod o'r meysydd lle mae angen iddo weithredu ymhellach.

## Argymhellion

A1 Erbyn mis Mai 2012, datblygu 'canlyniadau' canolig i hirdymor eglur o ran iechyd a gwasanaethau. Erbyn mis Medi 2012, helpu i gyflawni'r canlyniadau drwy ddatblygu a defnyddio dull o fesur perfformiad sy'n cwmpasu'r meysydd a nodir ym mharagraff 30.

A2 Erbyn mis Mehefin 2012, gwella systemau rheoli perfformiad personol drwy:

- sicrhau y pennir targedau perfformiad personol pendant ar gyfer pob aelod o staff sy'n cysylltu â'r canlyniadau newydd;
- sicrhau gwelliant parhaus o ran canran yr arfarniadau a gwblheir; a
- chreu cyfleoedd datblygu (arwain a chymryd rhan mewn prosiectau newid a gwella) ar gyfer staff fel y gallant ennill profiad yn fewnol a chyda darparwyr iechyd eraill.

A3 Gwneud cynnydd o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy'r canlynol:

- datblygu prosesau ymgynghori cliriach a phrosesau ymgysylltu allanol ar ddylunio gwasanaethau mewn ardaloedd ac is-ardaloedd;
- sicrhau y datblygir gwaith Ymholi drwy Ddylunio ar gyfer safle Bronllys, er mwyn sicrhau buddiannau gweledol i'r gymuned a'r rhai a gyfrannodd at y broses; a
- pharhau i ddatblygu a chynllunio gwasanaethau integredig gyda Chyngor Sir Powys (y Cyngor).

A4 Erbyn mis Mehefin 2012, datblygu cynlluniau ariannol tymor canolig sy'n adlewyrchu gofynion cyfalaf a refeniw yn seiliedig ar fodolau gwasanaeth newydd, gofynion lleol o ran cynllunio'r gweithlu, a'r posibilrwydd o arian cyfun gyda darparwyr eraill.

A5 Erbyn mis Ebrill 2012, datblygu fframwaith sicrwydd sy'n cynnwys:

- y broses ar gyfer nodi a dogfennu'r sicrwydd gofynnol ac adrodd arno;
- diffiniad o'r ffynonellau sicrwydd; a
- rôl yr holl bwyllgorau yn enwedig sut y mae'r rhain yn helpu i roi sicrwydd i'r Bwrdd.

# Adroddiad manwl

---

## Gwneir cynnydd o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn ein hasesiad strwythuredig yn 2010, ond erys rhai heriau penodol

12. Mae'r gwaith archwilio ar gyfer asesiad strwythuredig 2011 wedi mynd ar drywydd y meysydd allweddol i'w gwella a nodwyd yn Adroddiad Archwilio Blynyddol 2010, sef:
  - dulliau o wella a moderneiddio gwasanaethau;
  - trefniadau i ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol; a
  - sefyllfa ariannol bresennol y Bwrdd Iechyd a'i drefniadau rheoli ariannol.
13. Yn ogystal, rydym hefyd wedi ystyried trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd.

## Mae dull y Bwrdd Iechyd o gyflawni ei weledigaeth i foderneiddio gwasanaethau yn datblygu ac yn arwain at welliant. Fodd bynnag, mae angen iddo o hyd bennu dangosyddion cliriach y gellir eu defnyddio i fesur llwyddiant a mynd i'r afael â bylchau o ran adnoddau a gallu'r sefydliad, yn enwedig yn lleol

### Caiff gweledigaeth strategol y Bwrdd Iechyd ei chyflawni drwy gyfrwng y Cynllun Corfforaethol, ond mae angen rhoi ffocws cliriach ar ganlyniadau yn enwedig wrth ailddylunio gwasanaethau a llwybrau gofal

14. Mae yna gyfres resymegol a chydlynol o ddogfennau strategol sy'n rhoi fframwaith a chyfeiriad i'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Dros y 12 mis diwethaf, mae'r dogfennau allweddol hyn (y Rhaglen Amlinellol Strategol, Cyfeiriadau Newydd, y Fframwaith Gwasanaeth, Gweithlu a Chyllid, a'r Cynllun Corfforaethol) wedi'u mireinio ymhellach. O ganlyniad, ceir dealltwriaeth fwy cyson ymhlith uwch reolwyr a chyfarwyddwyr gweithredol ynghylch sut y dylai'r Bwrdd Iechyd ddarparu ei wasanaethau iechyd.
15. Fodd bynnag, nid yw'r Cynllun Corfforaethol yn canolbwyntio digon ar ganlyniadau, ac er ei fod wedi gwella o gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae'n parhau i ganolbwyntio ar dasgau yn bennaf. Wrth ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol nesaf mae angen rhoi ffocws cliriach ar ddatblygu canlyniadau a mesurau perfformiad ategol fel y nodir ym [mharagraff 30](#) ac [Argymhelliad 1](#) o'r adroddiad hwn.
16. Er mwyn moderneiddio gwasanaethau iechyd, rhaid mynd ati mewn ffordd drefnus i ddylunio llwybrau iechyd a datblygu gwasanaethau newydd a ddarperir yn lleol (yn uniongyrchol ac mewn partneriaeth â darparwyr eraill yn y sir). Mae angen gwneud mwy o waith i ailddylunio gwasanaethau a llwybrau, cynllunio faint o arian sydd ei angen, a datblygu a rheoli gallu ac adnoddau staffio.
17. Efallai y bydd angen buddsoddiad cychwynnol (o ran amser staff a refeniw) i gyflawni'r gwaith datblygu hwn er mwyn gwneud yn siŵr bod y Bwrdd Iechyd yn sicrhau arbedion

---

effeithlonrwydd a bod modelau gwasanaeth yn y dyfodol yn gallu ymdopi â newidiadau demograffig disgwylidig.

#### **Datblygu canlyniadau**

A1 Erbyn mis Mai 2012, datblygu 'canlyniadau' canolig i hirdymor eglur o ran iechyd a gwasanaethau. Erbyn mis Medi 2012, helpu i gyflawni'r canlyniadau drwy ddatblygu a defnyddio dull o fesur perfformiad sy'n cwmpasu'r meysydd a nodir ym [mharagraff 30](#).

### **Cymysg fu'r cynnydd o ran datblygu strwythurau sefydliadol cydlynol er mwyn helpu i gyflawni amcanion corfforaethol**

18. Y llynedd, nodwyd bod y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu integreiddio ar lefel strategol. Yn gynnar yn 2011, penderfynodd y ddau sefydliad o blaid integreiddio'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn weithredol yn hytrach nag integreiddio strwythurol. Er fod gan y model cydweithredol diwygiedig hwn y potensial i lwyddo, ymddengys y gallai'r newid fod wedi effeithio ar yr ymrwymiad i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a chyflymder y broses honno. Fodd bynnag, cydnabyddwn fod cynnydd wedi'i wneud o ran cydweithredu â'r Cyngor mewn meysydd fel integreiddio systemau rheoli TGCh, gwasanaethau cynnal a chadw cyffredinol, cludiant a phrydau ar glud i ddwyrain Sir Faesyfed.
19. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu ei strwythurau sefydliadol, ac mae'n dechrau sefydlu ei fodel ar gyfer ardaloedd lleol. Mae pob un o'r ardaloedd lleol wedi dangos eu bod yn gweithio'n well mewn rhyw agwedd yn gyson ag amcanion strategol.
20. Yn ogystal â'r ardaloedd lleol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi pum prif lwybr i gleifion. Mae'r llwybrau hyn yn dangos cyfeiriad llif cleifion yn gyffredinol i mewn ac allan o ranbarthau ym Mhowys i ddarparwyr y tu allan i'r sir. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dechrau datblygu ardaloedd clinigol yn seiliedig ar y llwybrau cleifion hyn.
21. At hynny, dros y 12 mis diwethaf, mae'r meddygon teulu o fewn y maes gofal sylfaenol wedi dechrau ffurfio clystyrau o feddygon teulu. Deallwn y rhesymau dros hyn a chymeradwywn y Bwrdd am ystyried datblygu strwythurau a ffyrdd newydd o weithio mewn amgylchedd iechyd cymhleth. Fodd bynnag, mae risg bob amser y gallai strwythurau diwygiedig fod yn orgymhleth, gan ei gwneud yn anodd i staff a rhanddeiliaid ymgysylltu â hwy a'u deall.

### **Mae mwy o sefydlogrwydd corfforaethol a gweithredol yn bodoli yn sgil penodi'r Cadeirydd newydd a Phrif Weithredwr parhaol ond, yn gyffredinol, erys problemau o ran gallu ac adnoddau i helpu i gyflawni'r weledigaeth**

22. Penodwyd Cadeirydd newydd ym mis Mai 2011 a phenodwyd y Prif Weithredwr parhaol ym mis Awst 2011. Mae'r penodiadau hyn wedi creu mwy o sefydlogrwydd a hyder nag a welwyd yn ystod ein hadolygiad blaenorol yn 2010.
23. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ailstrwythuro ar lefel cyfarwyddwyr gweithredol yn ddiweddar drwy roi proses recriwtio ffurfiol ar waith. Mae'r swyddi hyn ar gyfer cyfarwyddwyr

---

gweithredol yn rhai parhaol a dylent helpu i greu mwy o sefydlogrwydd a hyder ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd. Bydd angen diwygio'r cynllun dirprwyo ar ôl cwblhau'r broses benodi.

24. Fodd bynnag, islaw'r lefel weithredol ac ar lefel leol, erys pryder ymhlith nifer o'r rhai a gyfwelwyd ynghylch adnoddau a gallu'r sefydliad i wneud newidiadau. Gallai hyn arafu newidiadau ac yn enwedig y broses o ailddylunio gwasanaethau.
25. Mae cynllun gweithlu newydd ar waith ac mae'n cynnwys dadansoddiad da o ffactorau amgylcheddol mewnol ac allanol a dadansoddiad lefel uchel o amcanestyniadau ynghylch y gweithlu. Bydd angen gwneud rhagor o waith manwl i sicrhau bod adnoddau, cymwyseddau proffesiynol a gallu'r gweithlu yn diwallu anghenion y sefydliad yn y dyfodol er mwyn cefnogi unrhyw newidiadau mewn modelau darparu gofal iechyd a darparu gwasanaethau mewn modd effeithiol a diogel.
26. Caiff absenoldeb oherwydd salwch ymhlith y gweithlu ei reoli yn well, gan arwain at gyfraddau is o absenoldeb oherwydd salwch, ond erys problemau ynghylch effeithiolrwydd prosesau arfarnu a datblygu staff mewn rhai ardaloedd.

#### **Rheoli perfformiad, ymgysylltu â staff a'u datblygu**

A2 Erbyn mis Mehefin 2012, gwella systemau rheoli perfformiad personol drwy:

- sicrhau y pennir targedau perfformiad personol pendant ar gyfer pob aelod o staff sy'n cysylltu â'r canlyniadau newydd;
- sicrhau gwelliant parhaus o ran canran yr arfarniadau a gwblheir; a
- chreu cyfleoedd datblygu (arwain a chymryd rhan mewn prosiectau newid a gwella) ar gyfer staff fel y gallant ennill profiad yn fewnol a chyda darparwyr iechyd eraill.

#### **Mae systemau adrodd ar berfformiad i'r Bwrdd wedi gwella ond mae angen gwneud rhagor o waith i sefydlu fframwaith mesur perfformiad cyffredinol gwell yn seiliedig ar ganlyniadau a ddiffiniwyd yn glir**

27. Ers ein hadolygiad y llynedd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei systemau adrodd ar berfformiad ar lefel bwrdd ac mae hyn wedi arwain at ffocws da ar dargedau allweddol. Mae'r systemau adrodd diwygiedig yn cynnwys mwy o fanylder ac ystyriaeth onest o berfformiad da a gwan, gan gydnabod meysydd lle mae angen i'r Bwrdd Iechyd wella.
28. Mae'r adroddiadau perfformiad integredig a'n hadolygiad o ddangosyddion y bwrdd iechyd yn dangos bod perfformiad wedi gwella ar y cyfan, ond erys rhai meysydd penodol i'w gwella o hyd. Dylid nodi mai dim ond darlun cyffredinol cyfyngedig o wasanaethau y mae'r gyfres bresennol o fesurau sy'n sail i'n gwerthusiad yn ei roi ac nad yw'n dangos yr ystod lawn o wasanaethau a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd yn fewnol neu a gomisiynir ganddo.
29. Er bod systemau adrodd ar berfformiad i'r Bwrdd wedi gwella, mae'r diffyg eglurder ynghylch canlyniadau y cytunir arnynt, a nodwyd gennym yn flaenorol, yn golygu nad



---

yw'n bosibl ar hyn o bryd i gynllunio a mesur yn effeithiol i ba raddau y caiff canlyniadau eu cyflawni.

- 30.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn dechrau'r gwaith o ddatblygu fframwaith sicrwydd. Bydd angen i'r fframwaith hwn sicrhau bod y prosesau mesur perfformiad sylfaenol yn cwmpasu'r canlynol:
- canlyniadau a nodir yn lleol ar gyfer cleifion (er enghraifft, ansawdd gofal a phrofiadau cleifion ym mha le bynnag y mae'r claf yn cael gofal, canlyniadau cleifion, a chanlyniadau ehangach o ran iechyd y cyhoedd);
  - canlyniadau busnes mewnol ar gyfer y Bwrdd Iechyd (er enghraifft, mantoli'r gyllideb, cynhyrchiant y gweithlu, mesurau effeithlonrwydd, metrics prosesau);
  - allbynnau lleol (er enghraifft, camau gweithredu yn erbyn tasgau â blaenoriaeth uchel a chyflawni'r Rhaglen Amlinellol Strategol);
  - targedau cenedlaethol, mesurau'r fframwaith darparu a safonau; a
  - perfformiad contractwyr allanol sy'n cyflenwi gwasanaethau aciwt a gwasanaethau sylfaenol.
- 31.** Yn ogystal â nodi canlyniadau a mesurau, mae'n bwysig cael gwybodaeth gadarn i helpu i reoli perfformiad, gwneud penderfyniadau a chraffu. Er bod gwasanaethau'r adran wybodaeth wedi gwella, mae angen buddsoddi rhagor er mwyn cael gwybodaeth berthnasol, amserol a chywir.

## **Gwelwyd gwelliannau o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol, ond mae angen gwneud mwy i sicrhau bod staff y Bwrdd Iechyd yn deall ac yn cefnogi cynlluniau strategol y sefydliad**

**Mae dulliau ymgysylltu allanol yn gwella ac o ganlyniad, mae'r Bwrdd Iechyd yn dechrau sicrhau cyd-berchenogaeth o fentrau moderneiddio. Fodd bynnag, yn y dyfodol, rhaid bod cysylltiad cliriach rhwng gwaith ymgysylltu a modelau dylunio gofal iechyd pendant**

- 32.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo wneud mwy i godi'r proffil corfforaethol ymhlith rhanddeiliaid allanol. Mae sawl aelod o'r Bwrdd wedi gweithio gydag unigolion allweddol yn Llywodraeth Cymru a gwleidyddion i helpu i godi proffil gwaith y Bwrdd Iechyd ac ennyn cefnogaeth. Bydd penodiad y Cadeirydd a phenodiadau parhaol y Prif Weithredwr a'r tîm Gweithredol yn gymorth yn hyn o beth.
- 33.** Mae tystiolaeth glir bod systemau gwell ar waith i ymgysylltu â dinasyddion:
- Mae'r broses Ymholi drwy Ddylunio wedi bod yn broses ddylunio gadarn a arweinir yn annibynnol ar ddyfodol safle Bronllys. Mae'r broses wedi creu amrywiaeth o opsiynau sy'n cynnwys buddiannau'r gymuned a'r Bwrdd Iechyd.
  - Mae ymgynghoriad Cyfeiriadau Newydd wedi defnyddio dull lefel uchel o ymgysylltu â chymunedau, ond cymysg fu ei effeithiolrwydd ac ymateb y gymuned iddo. Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo proses ymgysylltu arall ar gyfer

---

ardal y De-ddwyrain a gynhelir gan feddygon teulu a'r Bwrdd Iechyd. Dylai'r Bwrdd barhau â'r prosiectau ymgysylltu hyn, ond mae angen iddo wneud mwy i ymgysylltu'n glir â rhanddeiliaid yn fwy penodol ym maes dylunio modelau gwasanaethau iechyd.

34. Mae prosesau ymgysylltu â'r sector gwirfoddol yn dda ar y cyfan. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried darparwyr yn y sector gwirfoddol yn bartneriaid strategol iddo. Er mwyn sicrhau parhad y gydberthynas hon, gall fod angen sicrwydd tymor hwy o barhad ffynonellau ariannu a lefelau gweithgarwch.
35. Mae cyfeiriad gwaith ymgysylltu â'r Cyngor wedi newid dros y 12 mis diwethaf. Mae'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor wedi newid o integreiddio ar lefel strategol, ond erys ymrwymiad i gydweithio mewn modd gweithredol i ddatblygu atebion lleol newydd o ran iechyd a gofal cymdeithasol. Mae angen i'r ddwy ochr gadarnhau sut y bydd eu rolau yn datblygu yn y dyfodol, yn eu barn hwy, o ran darparu'r gwasanaeth gorau posibl i ddinasyddion a chleifion ac ymrwymo i wneud hynny.
36. Byddwn yn ystyried effeithiolrwydd systemau ymgysylltu â meddygon teulu yn ein hadolygiad o systemau ymgysylltu clinigol y byddwn yn ei gyhoeddi yn gynnar yn 2012.

#### **Ymgysylltu â rhanddeiliaid**

A3 Gwneud cynnydd o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy'r canlynol:

- datblygu prosesau ymgynghori cliriach a phrosesau ymgysylltu allanol ar ddylunio gwasanaethau mewn ardaloedd ac is-ardaloedd;
- sicrhau y datblygir gwaith Ymholi drwy Ddylunio ar gyfer safle Bronllys, er mwyn sicrhau buddiannau gweledol i'r gymuned a'r rhai a gyfrannodd at y broses; a
- pharhau i ddatblygu a chynllunio gwasanaethau integredig gyda'r Cyngor.

#### **Nid yw'r prosesau ymgysylltu mewnol yn ddigonol hyd yma i sicrhau bod staff yn cefnogi'r weledigaeth yn llawn**

37. Nid yw prosesau ymgysylltu â staff yn effeithiol hyd yma. Dangosodd ein gwaith fod rhai problemau o ran morâl ac ansicrwydd yn bennaf o ganlyniad i gamau diweddar i ailstrwythuro'r ardaloedd lleol, yn ogystal â chynlluniau i ddylunio gwasanaethau iechyd yn y dyfodol. Ar y llaw arall, canfuwyd enghreifftiau da o staff yn ennyn mwy o frwdfrydedd ac ymrwymiad i gyfranogi ac arwain mentrau newid. Mae'n debygol y bydd ymgysylltu â staff yn hynod o bwysig i'r Bwrdd oherwydd bydd staff yn chwarae rhan sylweddol a phwysig i roi datblygiadau'r Bwrdd Iechyd ar waith.
38. Rhaid i brosesau ymgysylltu â staff gael eu cefnogi'n effeithiol a'u hatgyfnerthu gan systemau rheoli perfformiad personol da. I ategu'r broses hon, mae angen i'r adran adnoddau dynol alluogi rheolwyr i gysylltu canlyniadau sefydliadol â phrosesau rheoli perfformiad staff effeithiol ac amcanion personol.

---

**Mae'n naturiol bod prosesau rheoli ariannol wedi canolbwyntio ar y sefyllfa flynyddol ac mae'r Bwrdd lechyd yn dechrau gweld buddiannau'r prosesau hynny, ond mae'n rhagweld diffyg o £3 miliwn ar gyfer 2011-12 ar hyn o bryd. Mae angen i'r Bwrdd lechyd wneud mwy o hyd i gadarnhau ei sefyllfa ariannol tymor hwy**

**Llwyddodd y Bwrdd lechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2010-11, ond mae risg na fydd yn llwyddo i wneud hyn yn 2011-12**

39. Yn ei Adroddiad Archwilio Blynyddol 2010, nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod angen i'r Bwrdd lechyd, wrth bennu cyllideb o £243.0 miliwn ar gyfer 2010-11, ddatrys rhywfaint o'r ansicrwydd ynghylch cymorth strategol Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'i raglenni gwella costau a'i gynlluniau arbedion ariannol.
40. Y sefyllfa ariannol ar ddiwedd 2010-11 oedd bod y Bwrdd lechyd wedi llwyddo i fantoli'r gyllideb (gan gofnodi gwarged fach), ond gyda chyfanswm o £19.8 miliwn o gymorth strategol. Llwyddodd y Bwrdd hefyd i sicrhau gwelliannau costau ac arbedion o £10.3 miliwn, sef 83 y cant o'i dargedau.
41. Cymeradwyodd y Bwrdd lechyd gynllun ariannol blynyddol ar gyfer 2011-12 ym mis Ebrill 2011, yn seiliedig ar Derfyn Adnoddau Refeniw o ychydig dros £236 miliwn a nododd bwysau cost o £31 miliwn. Bwriadwyd mynd i'r afael â'r pwysau yma drwy'r ffyrdd canlynol:
  - cynlluniau a nodwyd eisoes i arbed £13.3 miliwn;
  - £15 miliwn o gymorth ariannol strategol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru; a
  - £3 miliwn o arbedion eraill i'w nodi yn ystod y flwyddyn.
42. Mae'r sefyllfa ym mis saith (fel y nodwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd 2011) yn dangos gorwariant o £3 miliwn ar y cam hwnnw ac yn rhagweld gorwariant o £3 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid yn cadarnhau'r canlynol:
  - £12.7 miliwn fydd yr arbedion rhagamcanol ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn y targed o £13.3 miliwn;
  - cytunwyd ar y £15 miliwn o gymorth ariannol strategol; ac
  - er bod cynlluniau i reoli'r arbedion ychwanegol sydd eu hangen, mae gwariant mewn meysydd eraill wedi cynyddu uwchlaw'r lefelau arfaethedig.
43. Er y gall y Bwrdd lechyd reoli ei sefyllfa ariannol eleni a chyflawni'r gofyniad i fantoli'r gyllideb, mae'r arbedion ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn fwy dibynnol ar newidiadau cymhleth mewn gwasanaethau. Mae'n debygol mai cyflymder y gwaith moderneiddio dros y chwe mis nesaf fydd y prif ffactor fydd yn dylanwadu ar ei allu i sicrhau'r arbedion gofynnol y flwyddyn nesaf.
44. I'r Bwrdd lechyd yn y dyfodol, mae'n debygol y bydd dulliau arbed syml nad ydynt yn effeithio fawr ddim ar ddinasyddion na defnyddwyr gwasanaethau yn mynd yn fwy prin. Yn y dyfodol, mae'n debygol y bydd yn rhaid dibynnu mwy ar sicrhau arbedion o dan

---

amgylchiadau sy'n golygu bod y broses yn fwy cymhleth, yn anos i'w chyflawni ac yn cymryd mwy o amser neu sy'n cael mwy o effaith ar ddinasyddion neu ddefnyddwyr gwasanaethau.

### **Mae prosesau rheoli ariannol yn datblygu yn lleol ond mae angen egluro trefniadau sicrwydd ar lefel Bwrdd**

45. Ceir mwy o ffurfioldeb o ran cymorth a her, a chaiff mwy o gyfrifoldebau eu dirprwyo'n lleol. Mae hyn yn cynnwys cymorth gwell gan gyfarwyddwyr gweithredol i reolwyr cyffredinol lleol yn ogystal â dirprwyo mwy o gyfrifoldebau o ran rheoli ariannol, gwneud penderfyniadau a rheolaeth. Mae trefniadau gwell ar waith i ddarparu gwybodaeth ariannol yn lleol, a chymorth ariannol arbenigol gwell yn lleol, sy'n golygu bod dealltwriaeth well o oblygiadau ariannol y penderfyniadau a wneir.
46. Llwyddodd y Bwrdd lechyd i fodloni gofynion llywodraethu ar gyfer monitro ei sefyllfa ariannol y llynedd drwy gyflwyno cyfarfodydd â ffocws ar gyfer holl aelodau'r Bwrdd. Ers ein hadolygiad yn 2010, mae Pwyllgor Llywodraethu Integredig mwy ffurfiol wedi disodli'r trefniant hwn. Bydd angen i'r trefniant newydd ymsefydlu'n llawn, a bydd yn rhaid i'r Bwrdd ddiffinio sut yn union y caiff sicrwydd ariannol ei gynnwys yn y fframwaith sicrwydd cyffredinol sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

### **Erys diffyg eglurder o ran sicrwydd a'r strategaeth ariannol tymor hwy y bydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth**

47. Mae sicrwydd tymor hwy o ran arian yn y dyfodol yn parhau i fod yn broblem, sy'n golygu ei bod yn anodd i'r Bwrdd lechyd gynllunio. Ychydig o adnoddau ychwanegol sydd ar gael i alluogi'r Bwrdd lechyd i ysgogi camau gweddnewid gwasanaethau, felly caiff gwelliannau i fodolau gofal iechyd eu hariannu a'u rhoi ar waith bob yn dipyn.
48. Er bod y Fframwaith Gwasanaeth Gweithlu a Chyllid yn rhoi trosolwg lefel uchel, mae angen iddo gael ei ategu gan fodolau ariannol manylach sy'n cysylltu â modelau gwasanaeth sy'n datblygu. Mae angen ystyried y canlynol:
  - arian (cyfalaf a refeniw); a
  - sut y gallai penderfyniadau ar weithredu'r modelau gwasanaeth newydd gael effaith ddilynol ar hyfywedd y gwasanaethau a ddarperir gan y sector gwirfoddol, cynghorau, ymddiriedolaethau Lloegr, byrddau iechyd Cymru a'r Bwrdd lechyd ei hun.
49. Darperir sicrwydd ariannol ar gyfer arian tymor byr, ond nid oes trefniant ffurfiol ar gael i roi sicrwydd hirdymor i'r Bwrdd lechyd.

---

### **Cynllunio ariannol tymor canolig**

A4 Erbyn mis Mehefin 2012, datblygu cynlluniau ariannol tymor canolig sy'n adlewyrchu gofynion cyfalaf a refeniw yn seiliedig ar fodolau gwasanaeth newydd, gofynion lleol o ran cynllunio'r gweithlu, a'r posibilrwydd o arian cyfun gyda darparwyr eraill.

## **Mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd lechyd yn gadarn ar y cyfan ac mae mwy o waith yn mynd rhagddo i sicrhau eu bod yn llywio ac yn cefnogi gwelliant**

50. Mae safonau uchel o lywodraethu ac atebolrwydd yn ofynion hanfodol wrth ddangos y gwarchodir arian cyhoeddus yn effeithiol ac y defnyddir adnoddau mewn modd effeithlon, effeithiol a darbodus. Mae angen i fyrddau cyrff y GIG sicrhau bod ganddynt 'Fframwaith Sicrwydd' effeithiol ar waith i'w helpu i wneud penderfyniadau a chraffu ar berfformiad. Mae angen iddynt sicrhau y caiff y sefydliad ei reoli'n dda a'i fod yn darparu gofal iechyd diogel a phriodol o ansawdd da.
51. Y 'Bwrdd' ffurfiol sy'n gyfrifol am lywodraethu ac atebolrwydd corfforaethol, ac mae'n cynnwys aelodau annibynnol, swyddogion gweithredol ac aelodau cyswllt sydd, yn achos y Bwrdd lechyd, yn cynnwys Prif Weithredwr Cyngor Sir Powys, Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a Chadeirydd y Fforymau Proffesiynol. Mae gan y Bwrdd saith pwyllgor ar hyn o bryd, ac mae gan rai o'r rhain isbwyllgorau:
  - Ansawdd a Diogelwch
  - Pwyllgor Archwilio
  - Pwyllgor Iechyd Meddwl
  - Pwyllgor Llywodraethu Integredig (cyfarfod ffurfiol cyntaf ym mis Medi 2011)
  - Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth
  - Cronfeydd Elusennol
  - Taliadau Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth
52. Mae'r tîm Archwilio Mewnol wrthi'n adolygu effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu ffurfiol ar hyn o bryd. Cynlluniwyd asesiad strwythurol 2011 gennym i'n galluogi i roi sicrwydd ar adolygiad llywodraethu'r tîm Archwilio Mewnol.
53. Dengys canfyddiadau cynnar adolygiad llywodraethu'r tîm Archwilio Mewnol fod gan y Bwrdd lechyd fframwaith llywodraethu ar waith, ond bod meysydd risg, agweddau i'w gwella, yn ogystal â chyfleoedd i gysylltu prosesau llywodraethu'n well ag uchelgeisiau gwella'r Bwrdd lechyd drwy fframwaith sicrwydd.
54. Rydym wedi nodi'r meysydd risg canlynol o ran sicrwydd drwy adolygiad yr asesiad strwythurol a chanfyddiadau cynnar adolygiad y tîm Archwilio Mewnol:
  - mae trefniadau rheoli risg yn cael eu datblygu, ond mae angen integreiddio trefniadau rheoli risg ymhellach yn y fframwaith sicrwydd;

- 
- mae angen sicrhau bod y sicrwydd o ran ansawdd a diogelwch yn effeithiol a'i fod yn cwmpasu'r elfennau gofynnol, gan sicrhau'n benodol ei fod yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chworymau; ac
  - mae angen sicrhau bod trefniadau sicrwydd yn cael eu cynnwys ar agenda'r pwyllgor ar gyfer gwasanaethau a ddarperir y tu allan i'r sir i drigolion Powys, a hynny o ran eu gwerth am arian a'u hansawdd.
- 55.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'i gryfderau a'i wendidau o ran llywodraethu ac mae'n ceisio gwella ei drefniadau. Mae wrthi'n gwneud rhagor o waith i lunio Fframwaith Sicrwydd clir ac effeithiol. Gwnaed rhywfaint o'r gwaith hwn i egluro'r sefyllfa i aelodau'r Bwrdd yn ystod diwrnod datblygu'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2011. Yn y cyfarfod hwn, gwnaed nifer o awgrymiadau ar gyfer gwella, y bydd angen eu ffurfioli dros amser drwy waith datblygu ychwanegol ac argymhellion i'r Bwrdd ffurfiol. Wrth wneud hynny, bydd angen i'r gwaith hwn ystyried:
- sut y caiff y Fframwaith Sicrwydd ei ddogfennu a sut yr adroddir arno;
  - y broses ar gyfer nodi'r sicrwydd gofynnol;
  - beth yw'r ffynonellau sicrwydd;
  - eglurder cylch gwaith y pwyllgor, atebolrwydd dros ddarparu sicrwydd; a
  - rôl yr holl bwyllgorau, yn enwedig sut mae'r rôl y maent yn ei chwarae yn helpu i roi sicrwydd i'r Bwrdd.
- 56.** Bydd datblygu Fframwaith Sicrwydd yn atgyfnerthu trefniadau llywodraethu ond mae angen dealltwriaeth gliriach o'r ffordd y caiff ei roi ar waith yn ymarferol.

#### **Fframwaith Sicrwydd**

A5 Erbyn mis Ebrill 2012, datblygu fframwaith sicrwydd sy'n cynnwys:

- y broses ar gyfer nodi a dogfennu'r sicrwydd gofynnol ac adrodd arno;
- diffiniad o'r ffynonellau sicrwydd; a
- rôl yr holl bwyllgorau yn enwedig sut y mae'r rhain yn helpu i roi sicrwydd i'r Bwrdd.

# Atodiad 1

## Bwrdd Iechyd Addysgu Powys - ei gefndir a'i heriau

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd) yw'r sefydliad sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau iechyd a lles i bobl sy'n byw ym Mhowys, sy'n gweithio yno neu sy'n ymweld â'r ardal. Sefydlwyd y Bwrdd Iechyd ym mis Hydref 2009, ond yn wahanol i fyrddau iechyd eraill yng Nghymru, ni fu'n rhaid cymryd camau sylweddol i uno cyn-gyrff iechyd er mwyn creu'r Bwrdd Iechyd.


Mae sir Powys yn ardal ddaearyddol fawr â phoblogaeth wasgaredig, sy'n golygu ei bod yn anodd lleoli unrhyw ysbyty aciwt mawr yn y sir. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Iechyd yn dibynnu ar ddarparwyr gwasanaethau iechyd aciwt y tu allan i'r sir, yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn creu mwy o gymhlethdod oherwydd nifer y llwybrau iechyd clinigol sy'n bodoli rhwng y Bwrdd Iechyd a darparwyr gwasanaethau iechyd y tu allan i'r sir.

Drwy greu'r Bwrdd Iechyd, cafwyd cyfle i integreiddio prosesau cynllunio a darparu gwasanaethau a gomisiynir yn allanol a gwasanaethau a ddarperir yn lleol i raddau mwy er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau a sicrhau mwy o effeithlonrwydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwasanaethu tua 130,000 o bobl, yn cyflogi tua 1,480 o staff ac mae ganddo gyllideb gweithredu flynyddol o tua £240 miliwn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am drefnu gwasanaethau iechyd, boed yn rhai a ddarperir yn uniongyrchol neu'n rhai a gomisiynir wrth ddarparwyr allanol, yn sir fwyaf gwledig Cymru.

### Arddangosyn 1: amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn seiliedig ar 2008, pobl: 2008 i 2033

#### Yr her ddemograffig



Ffynhonnell: Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data Llywodraeth Cymru

---

Mae heriau demograffig penodol a sylweddol hefyd. Er enghraifft, mae'r rhagolygon poblogaeth tymor hwy yn dangos y bydd twf demograffig parhaus yn y grŵp oedran 'dros 65', fel y nodir yn Arddangosyn 1. Gall hyn olygu y bydd sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'r gwasanaethau a ddarperir yn lleol ganddo o dan straen ariannol sylweddol yn y dyfodol, oherwydd y cynnydd yn y galw am wasanaethau ar gyfer pobl hŷn.

Caiff yr heriau hyn eu gwaethygu gan yr angen i drawsnewid y GIG yng Nghymru i fynd i'r afael â heriau hirsefydlog o ran perfformiad, canlyniadau iechyd, ansawdd gwasanaethau a chynaliadwyedd ariannol. Mae maint yr her ariannol sy'n wynebu cyrff y GIG yn sylweddol. Yn adroddiad diweddar yr Archwilydd Cyffredinol, *Darlun o wasanaethau cyhoeddus 2011*, nododd:

- 'Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu cyfnod o newid a phenderfyniadau anodd o ganlyniad i doriadau cyllidebol a phwysau eraill dros y pedair blynedd nesaf'; ac
- 'Er gwaethaf enghreifftiau cadarnhaol o gynnydd, mae angen cyflymu prosesau gweddnewid yn y gwasanaeth iechyd ac mae'r GIG yn debygol o gael anhawster i ateb yr heriau ariannol presennol oni fydd yn ailystyried rhai o'i uchelgeisiau'.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod problemau o ran fforddiadwyedd y modelau gwasanaethau presennol a bod risg y bydd costau yn parhau i gynyddu'n uwch na'r gyllideb sydd ar gael oni bai ei fod yn gwneud newidiadau sylfaenol i'r ffordd y mae'n darparu gofal. Ar yr un pryd, mae angen i'r Bwrdd Iechyd gyflawni ei dargedau statudol fel y nodir yn y Fframwaith Gweithredu Blynyddol, gweithio yn unol â dealltwriaeth na fydd yn dileu unrhyw swyddi a hefyd sicrhau gwelliannau cenedlaethol yn erbyn canlyniadau iechyd cenedlaethol a ddiffinnir yn y Fframwaith Cyflawni, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2011.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu fframwaith strategol bum mlynedd i ateb yr heriau hyn. Fel rhan o hyn, bu'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd lunio ei gynllun pum mlynedd ei hun yn nodi sut y bydd yn trawsnewid gwasanaethau yn ôl yr angen, ochr yn ochr â'r gwaith a oedd eisoes yn mynd rhagddo yn sgil ad-drefnu'r GIG.







WALES **AUDIT** OFFICE  

---

SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Ffôn: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Ffacs: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-mail: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

E-bost: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

Website: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

Gwefan: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)